# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Hydref 2014 i'w hateb ar 7 Hydref 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo diogelwch tân yng Nghymru? OAQ(4)1871(FM)

2. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar welliannau i'r M4? OAQ(4)1867(FM)

3. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Pa gynnydd sy'n cael ei wneud i ddatblygu'r Metro ar gyfer de-ddwyrain Cymru? OAQ(4)1880(FM)

4. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gapasiti presennol yr M4? OAQ(4)1879(FM)

5. **David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gynnig dewis i fyfyrwyr sy'n gorffen eu TGAU pan maent am ymgymryd ag addysg ôl-16? OAQ(4)1874(FM)

6. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut yr ymdrinir â chwynion i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch gofal annigonol neu amhriodol? OAQ(4)1878(FM)

7. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyllido teg i Gymru? **OAQ(4)1883(FM)W**

8. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r

rhai sydd angen cludiant i'r lle y maent yn cael eu haddysg neu hyfforddiant ôl-16? OAQ(4)1873(FM)

**9. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sefyllfa ariannol y gwasanaeth iechyd? OAQ(4)1872(FM)**W**

**10. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Beth oedd canlyniad yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf ar y penderfyniad i wahardd ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant? OAQ(4)1865(FM)

**11. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y Rhaglen Cefnogi Pobl yn Ynys Môn? OAQ(4)1869(FM)**W**

**12. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa newidiadau y mae'r Prif Weinidog am eu gwneud yn ei raglen ddeddfwriaethol yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys ar 9 Gorffennaf 2014 ynghylch Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014? OAQ(4)1884(FM)W**

**13. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i gyn-weithwyr Allied Steel and Wire? OAQ(4)1870(FM)

**14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau canser yng Nghymru erbyn diwedd 2014? OAQ(4)1877(FM)

**15. Sandy Mewies (Delyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu i amddiffyn pobl hŷn rhag twyll ariannol? OAQ(4)1876(FM)